Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **16 Ionawr 2018** |
| **Amser:** | **09:15 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Yr Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 19/12/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 3028** | **Cynnal cyfarfod o'r Bwrdd Plismona drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018.** | **I'w ystyried ar gyfer Tach/Rhag 2018** |
| **PB 3029** | **Y PG i adolygu data perfformiad a materion pellach â Goleudy a rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.** | **Yn parhau** |
| **PB 3030** | **Arfau saethu i fod yn bwnc o ddiddordeb yn y BP ar 31 Gorffennaf 2018.** | **Yn parhau** |
| **PB 3031** | **Comisiynu i fod yn bwnc o ddiddordeb yn y BP ar 30 Ionawr 2018.** | **Yn parhau** |
| **PB 3032** | **PS a Paul Morris i ddatblygu Canllaw Llywodraethu o ran sut y mae materion yn cael eu cyflwyno i'r BP.** | **Yn parhau** |
| **PB 3033** | **Y Swyddog Cydymffurfiaeth i roi diweddariad i'r CHTh ynghylch datrysiadau meddalwedd.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3034** | **Hysbysu'r Panel Heddlu a Throseddu am yr alldro ariannol rhagweledig ar gyfer 2017/18.** | **Wedi'i gwblhau** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 16/01/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud** |

| Penderfyniad | | yn ei flaen gan |
|---|---|---|
| **PB T2 55** | **Y CHTh a'r PG i gytuno i'r Cytundeb Adran 22A – Unedau Cenedlaethol.** | **Y CHTh a'r PG** |
| **PB T2 56** | **Hyd nes y bydd adolygiad terfynol, y PG a'r CHTh i gymeradwyo'r ddogfen Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd.** | **Y CHTh a'r PG** |
| **PB T2 57** | **Y PS i fynychu Bwrdd Gweithredol yr Heddlu.** | **PS** |

## 2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr a materion yn codi

Gyda rhai diwygiadau, cytunodd y Bwrdd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas â dangosyddion perfformiad ar gyfer prosiect Goleudy, cytunodd y CHTh a'r PS y byddai trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr Comisiynu (CC) yn SCHTh yn helpu'r mater.

**Cam Gweithredu: PS i ymgysylltu â'r CC mewn perthynas â dangosyddion perfformiad ar gyfer y prosiect Goleudy.**

Cafwyd trafodaeth ynghylch gweithgarwch mewn perthynas ag yfed dan oed yng Ngheredigion yn ystod gŵyl y Nadolig. Awgrymodd y CHTh y dylid dilyn i fyny â swyddogion cyswllt ysgolion sy'n ymgysylltu â myfyrwyr mewn perthynas ag yfed dan oed.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

<u>Diweddariad Gweithredol</u>

Diweddarodd y PG y CHTh ar nifer o faterion sefydliadol, gan gynnwys achos o reolaeth drwy orfodaeth yn Llanymddyfri, ymosodiad difrifol yn Llanelli ychydig cyn y Nadolig, lladrad arfog mewn siop yn Nhrefaldwyn, ac ymosodiad lle'r oedd bywyd mewn perygl yn Aberystwyth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Dywedodd y PG fod 17 swyddog wedi dioddef ymosodiad ers y Bwrdd Plismona diwethaf ar 19 Rhagfyr.

Rhoddodd y PG ddiweddariad i'r CHTh ynghylch achos o ladrata yn y Drenewydd ychydig wythnosau ynghynt.

**Cam Gweithredu: GB i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r dechnoleg a ddefnyddiwyd i ddatrys achos o ladrata yn y Drenewydd.**

Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad ynghylch cyfres o ladradau beiciau cwad yng Ngheredigion a'r achosion o dorri i mewn i siop Co-op.

**Cam Gweithredu: GB i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r lladradau beiciau cwad a'r achosion o dorri i mewn i siop Co-op.**

<u>Diweddariad Sefydliadol</u>

Diweddarodd y PG y CHTh ynghylch nifer o faterion sefydliadol, gan gynnwys dyrchafu swyddog Dyfed-Powys i Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru a sawl gosodiad ANPR yng Ngogledd Powys yn ystod ail wythnos mis Ionawr.

Hysbysodd y PG y Bwrdd bod cyfarfodydd rhanbarthol wedi'u cynnal dros gyfnod y Nadolig a'i fod wedi ymweld â'r Ystafell Reoli ym Mhencadlys yr Heddlu a Gorsaf Heddlu Caerfyrddin fore Nadolig. Diweddarwyd y Bwrdd ynglŷn ag Ymgyrch Heath yn Llangamarch, a dywedwyd wrthynt fod y PG wedi mynd allan ar batrôl gyda Night Light Caerfyrddin ar 13 Ionawr.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

<u>Lleol</u>

Sylwodd y CHTh ar y gweithgareddau cadarnhaol sydd wedi'u cynnal yn dilyn y ddadl gyhoeddus yn Llanelli.

Rhoddodd y CHTh wybod i'r Bwrdd am hysbysebion swyddi staff o fewn SCHTh.

Cydnabu'r CHTh lwyddiant dadl gyhoeddus Doc Penfro, a dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd llawer yn bresennol yn y cyfarfodydd sydd i ddod.

Rhoddodd y PS wybod i'r PG am fethiant generadur a allai effeithio ar systemau TG yr Heddlu, sy'n cael ei fonitro'n agos ar hyn o bryd.

<u>Cenedlaethol</u>

Dywedodd y CHTh fod swydd Prif Weithredwr Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'i chynnig i Susannah Hancock, sef Prif Weithredwr presennol SCHTh Essex.

Dywedodd y CHTh ei fod yn bwriadu mynd i gyfarfod cyffredinol Cwmni TGCh yr Heddlu ar 17 a 18 Ionawr. Hysbysodd y CHTh y Bwrdd y byddai'n tynnu'n ôl o Fwrdd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eleni.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â barn yr Heddlu am y gwasanaeth mae'n derbyn gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Dywedodd y PG wrth y CHTh y byddai'r Heddlu'n rhoi ateb swyddogol maes o law.

**Cam Gweithredu: Y PG i roi ateb swyddogol i'r CHTh mewn perthynas â barn HDP am Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.**

**5. Materion i'w Trafod**

**a) Adroddiad Praesept**

Roedd y PSA Jayne Woods yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona er mwyn cyflwyno'r adroddiad praesept.

Cyflwynodd y PSA ddrafft o'r adroddiad praesept i'r Bwrdd. Trafododd y Bwrdd yr adrannau amrywiol o fewn HDP a sut y byddai'r Gyllideb Arfaethedig yn effeithio ar bob un.

Cafwyd trafodaeth ynghylch niferoedd swyddogion yn dilyn cyflwyniad y PSA. Dywedodd y PG y byddai nifer y swyddogion (lefel sefydliad) ar gyfer 208-19 yn parhau'n gyson ar lefelau 2017/18 ar y lefel praesept arfaethedig.

**b) Strategaeth Troseddau Gwledig**

Nodwyd y byddai Fforwm Troseddau Gwledig Pencadlys yr Heddlu'n cael ei gynnal ar 12 Chwefror 2018. Dywedodd y PG y byddai Prif Swyddog yn arwain ar y Strategaeth Troseddau Gwledig ac y byddai gan bob URS ei Bwrdd Troseddau Gwledig ei hun. Hysbysodd y PG y Bwrdd fod gan Heddlu Gogledd Cymru dudalennau Troseddau Gwledig ar Gyfryngau Cymdeithasol sydd wedi'u hen sefydlu a fyddai'n elwa Strategaeth a Fforwm Dyfed-Powys gyda chyhoeddusrwydd.

**c) Cytundebau Adran 22A**

**Swyddfa Rhaglen a DBG Cymru Gyfan**

Sylwodd y CHTh ar rai anghysondebau yn iaith y cytundeb yr oedd angen eu newid e.e. y defnydd o'r acronym ACPO. Awgrymwyd rhai newidiadau eraill gan y CHTh a'r PS.

Sylwodd y PS ar faterion eglurder mewn perthynas â materion llywodraethu ac anghysondebau o ran peth o'r geiriad.

**Cam Gweithredu: Y PS i ddrafftio nodyn eglurhaol er mwyn rhoi adborth ar y Cytundeb Adran 22A.**

**Unedau Cenedlaethol**

Ystyriwyd hyn gan Adran Gyfreithiol yr Heddlu, ac o'r herwydd, penderfynwyd y byddai'r Heddlu a'r CHTh yn llofnodi'r cytundeb.

**Penderfyniad: Y CHTh a'r PG i gytuno i'r Cytundeb Adran 22A – Unedau Cenedlaethol.**

**Cam Gweithredu: Y PS i ddrafftio nodyn eglurhaol er mwyn rhoi adborth ar y Cytundeb Adran 22A.**

**ch) Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd**

Tynnodd y PG a GB sylw at rai pwyntiau yr oedd angen eu newid o fewn y ddogfen, sef pwyntiau 3.3.3 a 3.3.4.

**Cam Gweithredu: MH i wneud y diwygiadau a awgrymwyd i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd.**

**Penderfyniad: Hyd nes y bydd adolygiad terfynol, y PG a'r CHTh i gymeradwyo'r ddogfen Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chreu fersiwn gryno o'r ddogfen Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol er mwyn i staff gael mynediad hawdd ati. Byddai'r ddogfen hon yn cael ei datblygu a'i chyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen lawn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phresenoldeb aelod o SCHTh yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd Gweithredol yr Heddlu. Estynnwyd gwahoddiad i'r PS o SCHTh.

**Penderfyniad: Y PS i fynychu Bwrdd Gweithredol yr Heddlu.**

**d) Pwyllgor Deisebau**

Trafododd y Bwrdd ddeiseb gan Lywodraeth Cymru sy'n gofyn am ddiweddariad gan HDP mewn perthynas â'i ymgyrchoedd Diogelwch y Ffyrdd. Dywedodd y PG y byddai'r Heddlu'n darparu ymateb ac y byddai'r CHTh yn cael ei gopïo i mewn i'r ymateb hwnnw.

**Cam Gweithredu: GB i ddrafftio ymateb i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i ymgyrchoedd Diogelwch y Ffyrdd.**

**6. Unrhyw Fusnes Arall**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/01/18 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 3034** | **PS i ymgysylltu â'r CC mewn perthynas â dangosyddion perfformiad ar gyfer y prosiect Goleudy.** | **PS** |
| **PB 3035** | **GB i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r dechnoleg a ddefnyddiwyd i ddatrys achos o ladrata yn y Drenewydd.** | **GB** |
| **PB 3036** | **GB i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r lladradau beiciau cwad a'r achosion o dorri i mewn i siop Co-op.** | **GB** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 3037** | **Y PG i roi ateb swyddogol i'r CHTh mewn perthynas â barn HDP am Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.** | **PG** |
| **PB 3038** | **Y PS i ddrafftio nodyn eglurhaol er mwyn rhoi adborth ar y Cytundeb Adran 22A.** | **PS** |
| **PB 3039** | **MH i wneud y diwygiadau a awgrymwyd i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd.** | **MH** |
| **PB 3040** | **GB i ddrafftio ymateb i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i ymgyrchoedd Diogelwch y Ffyrdd.** | **GB** |